# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 3**

HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

**PENNOD 2**

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD PAN FO PRIF GYNGHORAU YN GWNEUD PENDERFYNIADAU

VALID FROM 05/05/2022

*Dyletswydd ar brif gynghorau i annog cyfranogiad o fewn llywodraeth leol*

**39 Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi pan fo prif gynghorau yn gwneud penderfyniadau**

(1) Rhaid i brif gyngor annog pobl leol i gyfranogi pan fo'r cyngor yn gwneud penderfyniadau (gan gynnwys penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall).

(2) Yn is-adran (1), mae cyfeiriad at wneud penderfyniadau yn cynnwys cyfeiriad at wneud penderfyniadau gan berson mewn perthynas ag arfer swyddogaeth a ddirprwywyd i'r person hwnnw gan brif gyngor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 39 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Dyletswydd ar brif gynghorau i annog cyfranogiad o fewn llywodraeth leol. (See end of Document for details)*

## 40 Strategaeth ar annog cyfranogiad

(1) Rhaid i brif gyngor lunio a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth cyfranogiad y cyhoedd") sy'n pennu sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 39.

(2) Rhaid i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ymdrin â'r canlynol, yn benodol—

- (a) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o swyddogaethau'r prif gyngor;
- (b) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o'r modd y deuir yn aelod o'r prif gyngor, a'r hyn y mae aelodaeth yn ei olygu;
- (c) dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl leol gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y prif gyngor;
- (d) dulliau o hybu a hwyluso prosesau lle gall pobl leol gyflwyno sylwadau i'r prif gyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud;
- (e) y trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben y ddyletswydd ar y cyngor yn adran 62 o Fesur 2011 (dwyn safbwyntiau'r cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu);
- (f) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o'r prif gyngor o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

(3) Caiff strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ymdrin â'r modd y mae prif gyngor yn bwriadu cydymffurfio â dyletswydd a osodir gan unrhyw ddeddfiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 40 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

## 41 Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd: ymgynghori ac adolygu

(1) Rhaid i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd gyntaf prif gyngor gael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i adran 40 ddod i rym.

(2) Wrth lunio'r strategaeth honno rhaid i'r cyngor ymgynghori ag—

- (a) pobl leol, a
- (b) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(3) Mewn perthynas â phrif gyngor—

- (a) rhaid iddo adolygu ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor, a
- (b) caiff adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg arall.

(4) Wrth gynnal adolygiad o strategaeth cyfranogiad y cyhoedd o dan is-adran (3)(a) rhaid i brif gyngor ymgynghori ag—

- (a) pobl leol, a
- (b) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(5) Yn dilyn adolygiad o dan is-adran (3) caiff prif gyngor ddiwygio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, neu roi strategaeth newydd yn ei lle.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Dyletswydd ar brif gynghorau i annog cyfranogiad o fewn llywodraeth leol. (See end of Document for details)*

(6) Ond cyn diwygio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu roi un newydd yn ei lle yn dilyn adolygiad o dan is-adran (3)(b) rhaid i brif gyngor ymgynghori ag—

(a) pobl leol, a

(b) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(7) Os yw prif gyngor yn diwygio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu'n rhoi un newydd yn ei lle, rhaid iddo gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig neu'r strategaeth newydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 41 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2022. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Dyletswydd ar brif gynghorau i annog cyfranogiad o fewn llywodraeth leol.